# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Jan Curtice | Adran Etholiadol: | Penyrheol |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roeddwn yn aelod o Blaid Lafur etholaeth Gŵyr ac yn Ysgrifennydd/Trysorydd y ward lleol. Ynghyd â'm cydgynghorydd ward, cynhaliais gymorthfeydd misol rheolaidd ym Mhenyrheol a Phengelli.

Euthum i gyfarfodydd rheolaidd â'r Heddlu er mwyn rhoi diweddariad ar unrhyw faterion lleol. Cyfarfûm hefyd yn rheolaidd â swyddogion tai lleol i drafod unrhyw bryderon a allai fod gan breswylwyr.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Magu Plant Corfforaethol | 3 | / | 6 | 50 | % |
| Y Cyngor | 12 | / | 16 | 75 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 0 | / | 3 | 0 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc | 7 | / | 11 | 64 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 8 | / | 14 | 57 | % |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal | 6 | / | 12 | 50 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **Cyffredinol** | **41** | **/** | **70** | 59 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Panel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 4 | / | 12 | 33 | % |
| Panel Ymchwilio pa mor barod yw plant i fynd i'r ysgol | 3 | / | 10 | 30 | % |
| Gweithgor Cynllunio | 2 | / | 3 | 67 | % |
| **Cyffredinol** | **9** | **/** | **25** | 36 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Yn ystod blwyddyn ddinesig 2016-2017, cysgodais Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn ac euthum i gyfarfodydd wythnosol â swyddogion. Euthum yn rheolaidd i glwb 'Henoed', gan roi cyngor ar unrhyw faterion a godwyd yn fy rôl fel Hyrwyddwr Pobl Hŷn. Aelod o bwyllgor 'Bwyd gyda Ffrindiau' sy'n cynnig cinio 2 gwrs unwaith y mis i breswylwyr lleol sy'n unig ac yn ddiamddiffyn. Hefyd, roeddwn yn Is-gadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Aelod o Gyngor Tref Lleol ac Aelod Pwyllgor yr Orymdaith Lusernau flynyddol yng Ngorseinon ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

Aelod pwyllgor clwb lleol i bobl 50+ oed sy'n ymgynnull yn wythnosol.

Rwyf bob amser wedi cefnogi unrhyw ddigwyddiad elusennol lleol.

Llywodraethwr ysgolion cynradd Penyrheol a Phengelli.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

23/05/2017 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
19/05/2017 - Gwneud penderfyniadau da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
16/05/2017 - Cyllid Llywodraeth Leol
11/05/2017 - Côd Ymddygiad
07/07/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Buom ni'n llwyddiannus wrth gaffael ardal chwarae o'r radd flaenaf i Benyrheol. Cyfrannais arian o'm Lwfans Cyllideb Gymunedol Cynghorydd i fentrau lleol ac, ynghyd â'n cydgynghorydd, helpais sefydlu 'Cyfeillion' Parc Pengelli. Euthum yn rheolaidd i'r Grŵp Llafur Gweithredol, Cyfarfodydd Ward, Cyfarfodydd Cyngor Tref a bues (ac rwyf o hyd) yn Ddirprwy Aelod Llywyddol (Is-gadeirydd) Cyngor Abertawe.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 18.01.2018 |